SFJBI302

Datblygu cynlluniau sy’n rheoli risg niwed i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â datblygu cynlluniau a luniwyd i reoli risg niwed i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais a cham-drin rhywiol. Mae’n cynnwys casglu ac asesu gwybodaeth berthnasol ac adolygu’r ffactorau risg ac amddiffynnol a nodwyd trwy asesiadau blaenorol, gan gynnwys o unrhyw asesiadau risg a wnaed ar wahân, a gwneud argymhellion am gamau gweithredu priodol.

Mae’r safon hon ar gyfer ymarferwyr sy’n cefnogi pobl sy’n cael profiad o gam-drin domestig, a all gynnwys achosion o drais rhywiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. esbonio wrth unigolion:
• eich rôl a’ch cyfrifoldebau
• diben y wybodaeth sy’n cael ei chasglu
• polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfrinachedd, gan gynnwys cydsyniad gwybodus
2. nodi gwybodaeth sy’n llywio cynlluniau unigolion, gan gynnwys:
• ffactorau risg
• deilliannau asesiadau angen a risg
• anghenion unigolion, gan gynnwys unrhyw ddibynyddion
• cymryd rhan mewn unrhyw ymyriadau blaenorol
• lle y bo’n berthnasol, ymateb y camdriniwr i ymyriadau blaenorol
3. trafod amgyffredion unigolion a phroblemau a achoswyd gan gamdriniaeth, a’r cymorth y byddent yn ei groesawu gan eich sefydliad
4. nodi effaith a chanlyniadau unrhyw ymyriadau blaenorol gydag unigolion
5. gwirio a oes digon o wybodaeth ar gael i ddatblygu cynlluniau unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
6. casglu gwybodaeth sy’n cyfrannu at gynlluniau unigolion
7. asesu anghenion a risgiau unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
8. nodi ffactorau amddiffynnol neu welliannau i iechyd, diogelwch a lles unigolion er mwyn bodloni anghenion unigolion a risgiau iddynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
9. nodi a oes gan unigolion anghenion arbenigol y gallai fod angen eu hasesu ymhellach neu gymorth pellach gan asiantaethau eraill
10. ceisio cyngor a chymorth pan fydd anghenion yr unigolyn y tu hwnt i faes eich arbenigedd neu eich cyfrifoldeb
11. nodi camau gweithredu sy’n mynd i’r afael â ffactorau risg a gwella ffactorau amddiffynnol i unigolion, gan gynnwys:
• eu diogelwch, eu hiechyd a’u lles
• unrhyw blant neu ddibynyddion sy’n cael eu heffeithio
12. nodi opsiynau a chytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer unigolion ar sail gwerthusiad o’r wybodaeth sydd ar gael:

- lefel yr angen a’r risg
- yr adnoddau sydd ar gael
- natur camdriniaeth yr unigolyn
- eu hamgyffrediad o’u risg a’u hamgylchiadau eu hunain
- y cymorth y mae arnynt ei angen

13. rhannu gwybodaeth a chyngor gydag unigolion am y cymorth a’r gwasanaethau cysylltiedig sydd ar gael iddynt
14. cynorthwyo unigolion i gael at wasanaethau arbenigol a nodwyd i fodloni eu hanghenion
15. monitro cynnydd cynlluniau i unigolion yn unol â’ch rôl a’ch cyfrifoldebau
16. darparu cymorth parhaus i unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
17. rhannu gwybodaeth gydag eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad a chydsyniad gwybodus gan unigolion
18. cytuno ar gyfrifoldebau ar gyfer ymgymryd ag adolygiadau a phwyntiau adolygu priodol i fonitro cynnydd cynlluniau gweithredu
19. cadw cofnodion o gynlluniau a rhyngweithiadau a darparu’r rhain i bobl eraill pan fydd angen, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. prosesau sefydliadol ar gyfer datblygu cynlluniau i gefnogi unigolion, gan gynnwys sut i osod amserlenni priodol
5. gweithdrefnau cofrestru a rheoli achosion a ddefnyddir yn eich sefydliad a'ch cyfrifoldebau o fewn y rhain
6. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
7. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
8. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
9. effaith cam-drin ar bawb y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion a dibynyddion
10. sut gall plant a dibynyddion gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
11. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio
12. ffynonellau gwybodaeth a chymorth sydd ar gael i bobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
13. y rhesymau pam mae rhai unigolion yn teimlo'n deyrngar i'w camdrinwyr
14. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gam-drin domestig a thrais rhywiol
15. rôl sefydliadau cymorth o ran darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion
16. trefniadau amlasiantaethol a phartneriaeth ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion
17. gwybodaeth y mae ei hangen wrth wneud asesiad o unigolion, yn briodol i ddatblygu cynlluniau a rheoli risgiau eu camdrinwyr iddynt
18. cynnwys a ffactorau i'w hystyried wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau
19. ffynonellau gwybodaeth berthnasol am unigolion a sut i gael at y rhain

20. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
21. gwahanol ymatebion i drawma a’u heffaith
22. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
23. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
24. ffactorau sy’n effeithio ar freguster unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
25. mathau o freguster, neu lefelau niwed, a ddefnyddir wrth asesu risg, a’u dangosyddion
26. yr effaith ar rieni â phlant
27. yr amgylchiadau pan ystyrir bod risg uchel i unigolion a bod angen cymorth arnynt, a sut i symud ymyrraeth o’r fath yn ei blaen
28. protocolau a gweithdrefnau diogelu gofynnol, gan gynnwys prosesau amlasiantaethol a phartneriaeth
29. dulliau ar gyfer meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a’u pwysigrwydd
30. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o’u goresgyn
31. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys sut i’w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
32. pwysigrwydd cyfathrebu dieiriau, gan gynnwys iaith y corff
33. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
34. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o’ch gwerthoedd a’ch credoau eich hun
35. yr effaith y gall eich gwerthoedd a’ch credoau eich hun ei chael wrth weithio gydag unigolion
36. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
37. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
38. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn deall pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu bodloni, a pham
39. cyfyngiadau ar gyfrinachedd sy’n berthnasol i’ch rôl

## Geirfa